



Cymun Bendigaid ar Gân a  
Bendithiad y Sagrafen Fendigaid

**Y Mercher Glân**

5 Ebrill 2022 am 6.00pm

Choral Holy Eucharist &  
Benediction of the Blessed Sacrament

**Holy Wednesday**

5 April 2022 at 6.00pm




**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor



*Croeso i  
Gadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor.*

*Welcome to  
Saint  
Deiniol's  
Cathedral in  
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnwll o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll—y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaith a chariad  
a gyhoeddir gennym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

You stand now where  
Deiniol stood almost a  
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he  
gathered around him a  
community of faith, hope  
and love, and raised  
around it a hazel fence—  
the original **bangor**—for  
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,  
too, will be embraced  
here by the same faith,  
hope and love that we  
proclaim and live by  
today.

# Heno...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni.

**Wedi'r Cymun, ceir defod Bendithiad y Sagrafen Fendigaid.**

Defod yw Bendithiad y Sagrafen Fendigaid pan yr addolir Iesu Grist yn Afrlladen Sagrafennol â'i ddatgelir ar fwrdd yr allor, a phan y bydd y gweinidog yn ein bendithio â'r Afrlladen Sagrafennol.

Mae Bendithiad y Sagrafen Fendigaid yn dechrau gydag Arddangosiad y Sagrafen Fendigaid mewn ysblenyddiwr a osodir ar yr allor. Byddwn yn canu'r emynau Lladin hynafol a ysgrifennwyd gan Sant Tomos o Acwin, *O Salutaris Hostia* a *Tantum Ergo*. Yna mae'r gweinidog yn dal y ysblenyddiwr gan wisgo llen y gwar yn gorchuddio eu hysgwyddau, breichiau a dwylo, ac yna'n ein bendithio â'r Sagrafen Fendigaid trwy olrhain arwydd y Groes gyda'r ysblenyddiwr a ddelir yn gyson unionsyth o'u blaenau. Mae'r litwrgi yn cloi gyda Salm 117, *Laudate Dominum*.

# Tonight...

At this Eucharist we will meet Christ in bread and wine, which become for us his Body and his Blood.

**After the Eucharist, we observe the rite of the Benediction of the Blessed Sacrament.**

Benediction of the Blessed Sacrament is the service in which Jesus Christ is adored in the Sacramental Host exposed on the altar-table, and in which the minister blesses us with the the Sacramental Host.

Benediction of the Blessed Sacrament begins with the Exposition of the Blessed Sacrament in a monstrance set upon the altar. Our liturgy includes singing the ancient Latin hymns written by Saint Thomas Aquinas, *O Salutaris Hostia* and *Tantum Ergo*. The minister then holds the monstrance wearing a humeral veil covering their shoulders, arms and hands, and then blesses us with the Blessed Sacrament by tracing the sign of the Cross with the monstrance held steadily upright before them. The liturgy concludes with Psalm 117, *Laudate Dominum*.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr o Gorff yr Eglwys.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Worshipping with us today

This booklet contains everything said and sung during our worship today. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. Translations into English are provided from Welsh and other languages. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✕. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

## Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen from the Nave.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

## Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

**1** I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

**2** Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio'ch cerdyn neu'ch ffôn.

**3** Rhowch rodd arian parod yn un o'r basgedi i gasglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys heddiw.

**4** I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda'r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am "Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth" a dewis "Bro Deiniol" o dan "Buddiolwr".

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

**Buchedd Bangor**



**O'r Ddarllenfa From the Lectern**



## From the Lectern & Buchedd Bangor

Each week, a **From the Lectern** email is sent to subscribers with weekly notices and images from the life of the Cathedral and Ministry Area. If you're not already a subscriber, follow the QR code, or visit **cadeirlan.churchinwales.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** is our new magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.

## Support

**This holy place of faith, hope and love, and all that takes place here, is sustained by your generosity.**

**1** To make an online donation on your phone today, scan the QR code below.

**2** Use our contactless donation point at the back of the Nave to tap your card or phone.

**3** Cash donations can be placed in one of the baskets set out at the back of the Nave.


**4** To set up a monthly Direct Debit donation, with the option to add Gift Aid, search online for "Church in Wales Gift Direct" and select "Bro Deiniol" under "Beneficiary".

**By making a donation, you'll be helping us to continue our essential work.**

**Cefnogaeth Support**



# Trefn Order



**Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch**

After the notices, we stand as the bell is rung



## Cynnull Gathering

### Introit

In nomine Domini omne genu flectatur, caelestium, terrestrium et infernorum: quia Dominus factus oboediens usque ad mortem, mortem autem crucis: ideo Dominus Iesus Christus in gloria est Dei Patris. Domine exaudi orationem meam et clamor meus ad te veniat.

#### **Cyfieithiad**

*Wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear: oherwydd iddo fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes: am hynny Iesu Grist yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad. Sanctaidd Un, clyw fy ngweddi, a doed fy nghri atat.*

#### **Translation**

*At the name of Jesus, every knee should bend, in heaven and on earth and under the earth: because he became obedient to the point of death – even death on a cross: therefore Jesus Christ is Lord, to the glory of God the Father. Hear my prayer, O Holy One; let my cry come to you.*

**Philipiaid | Philippians 2:10, 8, 11; Salm | Psalm 102:1**

**Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl**

We remain standing until the end of the Collect



## Cyfarchiad Greeting

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

### Translation

✠ *In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. Amen. ¶ Grace and peace be with you. And keep you in the love of Christ.*

“You shall not make it for yourselves; it shall be regarded by you as holy to the Living One your God.”

## Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

### Cyfieithiad

*Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.*

### Translation

*Lord have mercy. Christ have mercy. Lord have mercy.*

### Cerddoriaeth | Music

**Offeren i Bum Llais | Mass for Five Voices,**

William Byrd (c. 1540-1623)

## Parhawn ar ein traed

*We remain standing*

## Gweddi Gasgl Collect

Let us pray.

**O** God, who for our redemption gave your only-begotten Son to the death of the Cross, and by his glorious Resurrection delivered us from the power of our enemy: Grant us so to die daily to sin, that we may evermore live with him in the joy of his Resurrection; through the same Jesus Christ our Saviour.

**Amen.**

## Gair Word

### Darllenid Reading

A reading from the Book of Exodus.

**I**n those days: The Holy One said to Moses: Take the finest spices: of liquid myrrh five hundred shekels, and of sweet-smelling cinnamon half as much, that is, two hundred and fifty, and two hundred and fifty of aromatic cane, and five hundred of cassia – measured by the sanctuary shekel – and a hin of olive oil; and you shall make of these a sacred anointing-oil blended as by the perfumer; it shall be a holy anointing-oil. With it you shall anoint the tent of meeting and the ark of the covenant, and the table and all its utensils, and the lampstand and its utensils, and the altar of incense, and the altar of burnt-offering with all its utensils, and the basin with its stand; you shall consecrate them, so that they may be most holy; whatever touches them will become holy. You shall anoint Aaron and his sons, and consecrate them, in order that they may serve me as priests. You shall say to the Israelites, “This shall be my holy anointing-oil throughout your generations. It shall not be used in any ordinary anointing of the body, and you shall make no other like it in composition; it is holy, and it shall be holy to you. Whoever compounds any like it or whoever puts any of it on an unqualified person shall be cut off from the people. And take sweet spices, stacte, and onycha, and galbanum, sweet spices with pure frankincense (an equal part of each), and make an incense blended as by the perfumer, seasoned with salt, pure and holy; and you shall beat some of it into powder, and put part of it before the covenant in the tent of meeting where I shall meet you; it shall be for you most holy. When you make incense according to this composition, you shall not make it for yourselves; it shall be regarded by you as holy to the Living One your God.”

Hear the word of life to the world.

**Thanks be to God.**

Exodus 30:22-37



## Efengyl Gospel



Y Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol. R̄ **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** Y Mae'r tlodion gyda chwi bob amser, ond nid wyf fi gyda chwi bob amser. R̄ **Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.  
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.  
**Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Chwe diwrnod cyn y Pasg, daeth Iesu i Fethania, lle'r oedd Lasarus yn byw, y dyn yr oedd wedi ei godi oddi wrth y meirw. Yno gwnaethpwyd iddo swper; yr oedd Martha yn gweini, a Lasarus yn un o'r rhai oedd gydag ef wrth y bwrdd. A chymerodd Mair fesur o ennaint costfawr, nard pur, ac eneiniodd draed Iesu a'u sychu â'i gwallt. A llanwyd y tŷ gan bersawr yr ennaint. A dyma Jwdas Iscariot, un o'i ddisgyblion, yr un oedd yn mynd i'w fradychu, yn dweud, "Pam na werthwyd yr ennaint hwn am dri chant o ddarnau arian, a'i roi i'r tlodion?" Ond fe ddywedodd hyn, nid am fod gofal ganddo am y tlodion, ond am mai lleidr ydoedd, yn cymryd o'r cyfraniadau yn y god arian oedd yn ei ofal. "Gad lonydd iddi," meddai Iesu, "er mwyn iddi gadw'r ddefod ar gyfer dydd fy nghladdedigaeth. Y mae'r tlodion gyda chwi bob amser, ond nid wyf fi gyda chwi bob amser." Daeth tyrfa fawr o'r Iddewon i wybod ei fod yno, a daethant ato, nid o achos Iesu yn unig, ond er mwyn gweld Lasarus hefyd, y dyn yr oedd ef wedi ei godi oddi wrth y meirw. Ond gwnaeth y prif offeiriaid gynllwyn i ladd Lasarus hefyd, gan fod llawer o'r Iddewon, o'i achos ef, yn gwrthgilio ac yn credu yn Iesu.

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.  
**Moliant i ti, O Grist.**

Translation over the page

### Translation

*℣ Praise to you, O Christ, King of eternal glory.*

*℞ Praise to you, O Christ, King of eternal glory.*

*℣ You always have the poor with you, but you do not always have me. ℞ Praise to you, O Christ, King of eternal glory. ☩ Grace and peace be with you. And keep you in the love of Christ. Listen to the Holy Gospel according to ✠ Saint Mark. Glory to you, O Christ. ☩ At that time: Six days before the Passover Jesus came to Bethany, the home of Lazarus, whom he had raised from the dead. There they gave a dinner for him. Martha served, and Lazarus was one of those at the table with him. Mary took a pound of costly perfume made of pure nard, anointed Jesus' feet, and wiped them with her hair. The house was filled with the fragrance of the perfume. But Judas Iscariot, one of his disciples (the one who was about to betray him), said, "Why was this perfume not sold for three hundred denarii and the money given to the poor?" (He said this not because he cared about the poor, but because he was a thief; he kept the common purse and used to steal what was put into it.) Jesus said, "Leave her alone. She bought it so that she might keep it for the day of my burial. You always have the poor with you, but you do not always have me." When the great crowd of the Jews learned that he was there, they came not only because of Jesus but also to see Lazarus, whom he had raised from the dead. So the chief priests planned to put Lazarus to death as well, since it was on account of him that many of the Jews were deserting and were believing in Jesus. ☩ This is the Gospel of our Saviour. Praise to you, O Christ.*

**Ioan | John 12:1-11**

**Eisteddwn**

We sit

## Salmyddiaeth Psalmody

**Cenir gosodiad o un o salmau mydryddol Edmwnd Prys o “Salmau Cân” (1621) i gerddoriaeth gan William Byrd, a hiñhau’n bedwarcanmlwyddiant eu marw ill dau**  
A setting of one of Edmund Prys’s metrical psalms from “Salmau Cân” (1621) is sung to music by William Byrd, on the four hundredth anniversary of their deaths

Pa hyd fy Arglwydd, Dduw dilyth? a’i byth yr wyf mewn angof?  
Pa guddio r’wyd, (O Dduw) pa hyd? dy lân wynebpryd rhagof?

Ba hyd y rhed meddyliau tro bob awr i flino ’nghalon? Pa hyd y goddefaf y dir? dra codir fy nghaseion.

### Translation

*How long, O God? Will you forget me for ever;  
how long will you hide your face from me? ¶ How  
long shall I have perplexity in my mind, and grief  
in my heart, day after day; how long shall my  
enemy triumph over me?*

**Salm | Psalm 13:1-2**

**Efelychiad | Paraphrase**

Edmund Prys (c.1542-1623)

**Cerddoriaeth | Music**

William Byrd (c.1540-1623)

## Cerdd Poem

### Yr Eneinio ym Methania | The Anointing at Bethany

Malcolm Guite; cyfieithiad Siôn Aled

Dynesa gyda Lasarus a Mair  
a Martha. Eu hanadlu sy'n bywhau  
fflamau'r canhwyllau sy'n goleuo'r Gair  
am bethau dirgel am ein byw sy'n gwau.  
Yma try harddwch at ran ola'r daith  
wrth dollti'n dawel ddwys yr ennaint drud  
mewn rhag-iachâd ar gorff heb eto graith,  
ar gorff yr unig gariad gwerth y byd.  
Mae'r persawr mewn eiliadau'n llenwi'r tŷ  
â hiraeth chwil am golled eto'i ddod,  
galara'r galon ond mae'r ysbryd hy  
yn dawnsio yma yn uchafbwynt bod:  
y lle cyferfydd cariad llwyr a loes  
a'r fan lle traidd ein trem tu hwnt i'r groes.

Come close with Mary, Martha, Lazarus,  
So close the candles stir with their soft breath,  
And kindle heart and soul to flame within us,  
Lit by these mysteries of life and death.  
For beauty now begins the final movement,  
In quietness and intimate encounter,  
The alabaster jar of precious ointment  
Is broken open for the world's true lover.  
The whole room richly fills to feast the senses  
With all the yearning such a fragrance brings,  
The heart is mourning but the spirit dances,  
Here at the very centre of all things,  
Here at the meeting place of love and loss  
We all foresee, and see beyond the cross.

**Codwn ar ein traed i ganu'r emyn**

We stand to sing the hymn

# Cymun Sacrament

Emyn Hymn



**O** ddwyfol ben yn gwaedu,  
dan ddirmyg, gwawd a llid!  
O freiniol ben rhwymedig  
â drain gwatwarus fyd!  
O fwyndeg ben urddasol,  
fu'n urddrych parch a bri,  
yn awr dan warth sy'n crymu –  
f'addoliad rof i ti.

In thy most bitter passion  
my heart to share doth cry,  
with thee for my salvation  
upon the Cross to die.  
Ah, keep my heart thus movèd  
to stand thy Cross beneath,  
to mourn thee, well-belovèd,  
yet thank thee for thy death.

Yn awr fy ymadawiad  
paid di â'm gadael i,  
pan deimlwyf boenau angau  
yn agos iawn bydd di;  
pan fyddo 'nghalon egwan  
yn llawn o bob rhyw loes,  
ymwared dyro imi  
yn rhinwedd Gwaed dy Groes.

Translation over the page

### Translation

*O sacred head, sore wounded, defiled and put to scorn; O kingly head, surrounded with mocking crown of thorn: what sorrow mars thy grandeur? Can death thy bloom deflower? O countenance whose splendour the hosts of heaven adore.*

*☩ My days are few, O fail not, with thine immortal power, to hold me that I quail not in death's most fearful hour: that I may fight befriended, and see in my last strife to me thine arms extended upon the Cross of life.*

### Geiriau | Words

Paul Gerhardt (1607-1676)

### Cyfiethiad | Translation

Jack Edwards (1853-1942); Robert Bridges (1844-1930)

### Cerddoriaeth | Music | "Corâl y Dioddefaint | Passion Chorale"

Hans Leo Hassler (1564-1612)

## Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

We remain standing until we share the Peace

## Offrwm Offertory

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliath.

**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

### Translation

*We bring to this place the bread that sustains us. It will become for us the bread of life. ☩ We bring to this place the wine that mellows us. It will become for us the lifeblood of the world.*

## Gweddi Ewcharistaidd Eucharistic Prayer

Grace and peace be with you.

**And keep you in the love of Christ.**

Lift up your hearts.

**We lift them to the Lord.**

Let us give thanks to the Lord our God.

**It is right to give our thanks and praise.**

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A'i darostyngodd ei hun ar wedd y ddynoliaeth, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar Groes. Fe'i dyrchafwyd oddi ar y ddaear fel y tynnai bawb ato ef ei hun.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

**Translation**

*It is indeed right, it is our duty and our joy at all times and in all places to give you thanks, holy Father, all-powerful and everliving God, through Jesus Christ our Lord. Who, bearing the human likeness, humbled himself and in obedience accepted death, even death on a Cross. He was lifted up from the earth that he might draw all people to himself. And so with the hosts of angels and all the company of heaven we proclaim the glory of your name and join in their unending hymn of praise:*

Sanctus, Sanctus, Sanctus Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt caeli et terra gloria tua. Hosanna in excelsis.

✠ Benedictus qui venit in nomine Domini. Hosanna in excelsis.

**Cyfieithiad**

*Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf. ✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.*

**Translation**

*Holy, holy, holy Lord, God of power and might, heaven and earth are full of your glory. Hosanna in the highest. ✠ Blessed is he who comes in the name of the Lord. Hosanna in the highest.*

**Cerddoriaeth | Music**

**Offeren i Bum Llais | Mass for Five Voices,**

William Byrd (c.1540-1623)

**Parhawn ar ein traed**

We remain standing

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

**Translation**

*All praise and thanks to you, true and living God, Creator of all things, Giver of life. You formed us in your own image; but we have marred that image and fall short of your glory. We give you thanks that you sent your Son to share our life; you gave him up to death that the world might be saved, and you raised him from the dead that we might live in him and he in us.*

Sanctify with your Spirit this bread and wine, your gifts to us, that they may be for us the body and blood of our Saviour Jesus Christ.

On the night he was betrayed, he took bread, and when he had given thanks he broke it and gave it to his disciples, saying, Take, eat; this is my body which is given for you: do this in remembrance of me. ✠

In the same way after supper he took the cup, and when he had given thanks he gave it to them, saying, Drink from this, all of you, for this is my blood of the new covenant which is shed for you and for many for the forgiveness of sins: do this as often as you drink it in remembrance of me. ✠

Let us proclaim the mystery of faith:

**Christ has died.**

**Christ is risen.**

**Christ will come in glory.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbynn ein haberth o ddiolch a moliant.



**Translation**

*As he has commanded us, Father, we remember Jesus Christ, your Son. Proclaiming his victorious death, rejoicing in his resurrection and waiting for him to come in glory we bring to you this bread, this cup. Accept our sacrifice of thanks and praise.*

Restore and revive your people, renew us and all for whom we pray with your grace and heavenly ✠ blessing, and at the last receive us with all your saints into that unending joy promised by your Son, Jesus Christ our Lord.

Through him, with him, in him, in the unity of the Holy Spirit all honour and glory are yours, almighty Father, for ever and ever.

✠ **Amen.**

**Parhawn ar ein traed**

*We remain standing*

**Gweddi'r Arglwydd Lord's Prayer**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus. As our Saviour taught us, each in our own language, we boldly pray:

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

**O**ur Father who art in heaven, hallowed be thy name, thy kingdom come, thy will be done, on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses as we forgive those who trespass against us. And lead us not into temptation, but deliver us from evil. For thine is the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. Amen.

## Tangnefedd Peace

Your broken body, earth of our earth and flesh of our flesh, marked by your fierce love, is made whole for us in peace.

The Peace of the Living God be always with you.

**And keep you in the love of Christ.**

We share a sign of Peace.

**Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn**

We share a sign of Peace; then we sit or kneel

## Torri Breaking

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: dona nobis pacem.

### Cyfieithiad

*Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.*

### Translation

*Lamb of God, who takes away the sins of the world: have mercy on us. Lamb of God, who takes away the sins of the world: have mercy on us. Lamb of God, who takes away the sins of the world: grant us peace.*

### Cerddoriaeth | Music

**Offeren i Bum Llais | Mass for Five Voices,**

William Byrd (c.1540-1623)

## Cymuno Communion

✠ Jesus is the Lamb of God  
who takes away the sins of the world.  
Happy are those who are called to his supper.

**Saviour, I am not worthy to receive you,  
but only say the word and I shall be healed.**

**Deuwn i Gymuno wrth Reilen y Cymun wedi'r Côr, o'r Afriladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed**

We make our Communion at the Communion Rail after the Choir, receiving the Sacramental Host and, if we wish, the Precious Blood

## Motét Motet

Salvator mundi, salva nos, qui per crucem et sanguinem redemisti nos, auxiliare nobis, te deprecamur, Deus noster.

### Cyfieithiad

*lachawdwr y byd, achub ni, yr hwn a'n prynodd trwy'r groes a'r gwaed, cynnorthwya ni, atolygwn i ti, ein Duw.*

### Translation

*Saviour of the world, save us, who redeemed us by the cross and blood, help us, we beseech you, our God.*

### Geiriau | Words

Colect ar gyfer Gofwy'r Claf | Collect for the Visitation of the Sick

### Cerddoriaeth | Music

Thomas Tallis (c.1505-1585)



## Pregeth Sermon

### Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

We sit at the start of the sermon

### Y Parchg Ddr Malcolm Guite

The Revd Dr Malcolm Guite

# *Bendithiad y Sagrafen Fendigaid* *Benediction of the Blessed Sacrament*

Parhawn ar ein heistedd i ganu, gan godi pan gyrhaedda'r Gweinidog  
We remain seated to sing, standing when the Minister enters

Emyn Hymn



**A**ll for Jesus, all for Jesus,  
this our song shall ever be;  
for we have no hope, nor Saviour,  
if we have not hope in thee.

**All for Jesus: thou wilt give us  
strength to serve thee hour by hour;  
none can move us from thy presence,  
while we trust thy love and power.**

**O, fy lesu, bwrdd yr allor  
yw dy orsedd; atat ddaw  
angen byd i'w lwyr ddiwallu,  
mêl i'n syched, gorhoen braw.**

**O, fy lesu, ti â'n carodd;  
O, fy lesu, fu'n y bedd;  
O, fy lesu, ti gyfodaist;  
O, fy lesu, fyth ein hedd.**

**All for Jesus, all for Jesus,  
this the Church's song must be;  
till, at last, her sons are gathered  
one in love and one in thee.**

### Translation

*All for Jesus, at thine altar thou wilt give us sweet content; there, dear Lord, we shall receive thee in the solemn sacrament. ☩ All for Jesus, thou hast loved us; all for Jesus, thou hast died; all for Jesus, thou art with us; all for Jesus crucified.*

### Geiriau | Words

John Sparrow-Simpson (1859-1952)

### Cyfieithiad | Translation

Siôn B. E. Rhys Evans

### Cerddoriaeth | Music | "All for Jesus"

John Stainer (1840-1901)

## Penliniwn ar ganiad y gloch

We kneel as the bell is rung

## O Salutaris Hostia

O salutaris Hostia,  
quae caeli pandis ostium:  
bella premunt hostilia,  
da robur, fer auxilium.

Uni trinoque Domino  
sit sempiterna gloria,  
qui vitam sine termino  
nobis donet in patria.  
Amen.

### Cyfieithiad

*O Aberth lechydwrriaeth sydd yn llydan agor porth y nef, fe'n gwesgir gan y frwydr brudd, dwg inni gymorth â'th fraich gref. ☩ I'r Arglwydd sydd yn Un a Thri, trwy dragwyddoldeb boed mawrhad. A rhodded ef o'i ras i ni fywyd di-dranc yn ein tref-tad. Amen.*

### Translation

*O Saving Victim! Opening wide the gate of heaven to man below. Our foes press hard on every side, thine aid supply, thy strength bestow. ☩ All praise and thanks to thee ascend for evermore, blest One in Three; O grant us life that shall not end in our true native land with thee. Amen.*

### Prïodoliadau dros y tudalen | Attributions over the page

**Geiriau | Words**

Thomas Aquinas (1227-1274)

**Cyfieithiad Cymraeg | Welsh-language translation**

Saunders Lewis (1893-1985)

**Cyfieithiad Saesneg | English-language translation**

John Mason Neale (1818-1866), ac eraill | and others

**Cerddoriaeth | Music**

Edward Elgar (1857-1934)

**A'th fendigaf di**

Ogoneddus Drindod, henffych well.

**Ogoneddus Drindod, henffych well.**

Ogoneddus Drindod, henffych well.

**Ogoneddus Drindod, henffych well.**

Yn dy fendithio boed eglwys a changell.

**Yn dy fendithio boed eglwys a changell.**

Yn dy fendithio boed gwastad a mynydd.

**Yn dy fendithio boed gwastad a mynydd.**

Yn dy fendithio boed meddwl a gweithred.

**Yn dy fendithio boed meddwl a gweithred.**

Yn dy fendithio boed bywyd tragywydd.

**Yn dy fendithio boed bywyd tragywydd.**

Ogoneddus Drindod, henffych well.

**Ogoneddus Drindod, henffych well.**

Ogoneddus Drindod, henffych well.

**Ogoneddus Drindod, henffych well.**

**Translation**

*Hail, glorious Trinity. Church and chancel,  
vale and hill, thought and action, life eternal  
bless you.*

Llyfr Du Caerfyrddin | The Black Book of Carmarthen (c.1250)

## Gweddi Prayer

Soul of Christ, sanctify me.  
Body of Christ, save me.  
Blood of Christ, inebriate me.  
Water from the side of Christ, wash me.  
Passion of Christ, strengthen me.  
O good Jesu hear me.  
Within your wounds, O Christ, hide me.

## Tantum ergo Sacramentum



**T**antum ergo Sacramentum  
Veneremur cernui,  
Et antiquum documentum  
Novo cedat ritui;  
Praestet fides supplementum  
Sensuum defectui, sensuum defectui.

Genitori, Genitoque  
Laus et iubilatio,  
Salus, honor, virtus quoque  
Sit et benedictio;  
Procedenti ab utroque  
Compar sit laudatio, compar sit laudatio.  
Amen.

Cyfieithiadau dros y dudalen | Translations over the page

### Cyfieithiad

*Y sagrafen yma weithion parchwn gan ymgrymu i lawr; cilia o'i blaen yr hen arwyddion, defod newydd ddaeth yn awr; i'n synhwyrâu a'u diffygion rhodded ffydd ei chymorth mawr.*

*☩ Boed i'r Tad a'r Mab yn unwedd fawl ac orohian mwy, pob penllad a chlod a rhinwedd fyddo, a bendithiwn hwy, caffed yntau gydogonedd sydd yn hanu ohonynt hwy. Amen.*

### Translation

*Therefore we, before him bending this great Sacrament revere; types and shadows have their ending, for the newer rite is here: faith, our outward sense befriending, makes the inward vision clear. ☩ Glory let us give and blessing to the Father and the Son; honour, might, and praise addressing while eternal ages run; ever too his love confessing, who, from both, with both is one. Amen.*

### Geiriau | Words

Thomas Aquinas (1227-1274)

### Cyfieithiad Cymraeg | Welsh-language translation

Saunders Lewis (1893-1985)

### Cyfieithiad Saesneg | English-language translation

John Mason Neale (1818-1866), ac eraill | and others

### Cerddoriaeth | Music | "Cwm Rhondda"

John Hughes (1873-1932)

### Parhawn i benlinio

We remain kneeling



## Gweddi Gasgl Collect

℣ Darperaist iddynt fara o'r nef.



℟ Yn llawn o bob melyster.

Gweddiwn.

**F**endigaid Dduw, a adewaist i ni goffadwriaeth o'th Ddioddefaint mewn Sacrament rhyfeddol, caniatâ inni felly barchu dirgeleddau sanctaidd dy Gorff a'th Waed, fel y canfyddwn yn wastad ynom ein hunain ffrwyth dy brynedigaeth di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.



**Amen.**

### Translation

℣ *Thou gavest them bread from heaven. ℟ Containing in itself all sweetness. ☩ Let us pray. Blessed God, who in a wonderful Sacrament has left us a memorial of your Passion: grant us, we beseech you, so to venerate the sacred mysteries of your Body and Blood, that we may ever perceive within ourselves the fruit of your redemption, who lives and reigns with the Father and the Holy Spirit, one God, world without end. Amen.*



**Bendithiad y Sagrafen Fendigaid**

**Benediction of the Blessed Sacrament**

## Y brawd Fadog ap Gwallter ai cant

Mab a'n rhodded  
**Mab a'n rhodded,**

Mab a aned  
**Mab a aned**

Dan ei freiniau  
**Dan ei freiniau,**

Mab gogoned  
**Mab gogoned,**

Mab in gwared  
**Mab in gwared,**

y Mab gorau  
**y Mab gorau.**

Dim rhyfeddach  
**Dim rhyfeddach**

Ni bydd bellach  
**Ni bydd bellach,**

Ni bwyll enau  
**Ni bwyll enau.**

### Translation

*Brother Madoc ap Gwallter sings ¶ A Son is given to us, born blessed, the Son of glory, the Son to redeem us, the best Son. Never more, and never again to be told, will there be a greater mystery.*

Madog ap Gwallter (fl. c.1250)

### Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

*We stand as the bell is rung*



## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiau ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** Mae'r lliθοedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae'r llun ar y clawr gan Dave Custance o Aberdaron ger Ynys Enlli, o ble y daethpwyd â phridd i'w roi ym Mwrdd yr Allor newydd y Gadeirlan.

## Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

## Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Some of our services are streamed on Facebook from a camera at the east end of the Nave facing east, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

## Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. **An Order for the Holy Eucharist 2004**, material from which is included in this service is copyright © Church in Wales Publications 2004. The lessons and Welsh-language psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The Welsh-language psalmody refrain is from Nicander, **Y Psallwyr** (1850); the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary** (2019).

The cover image is by Dave Custance of Aberdaron near Bardsey Island, from where soil was brought to be placed in the Cathedral's new Altar-Table.

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

### Deiniol Sant ym Mangor

## The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru

**Y Parchediac Andrew T. G. John**

Bishop & Archbishop of Wales

**The Most Revd Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean

**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**

sionrhys@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fwywyd Cynulleidfaoel

Canon for Congregational Life

**Canon Tracy Jones**

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

**Joe Cooper**

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

**Martin Brown**

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

**Naomi Wood**

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

**Robert Jones**

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

**Simon Taylor**

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

**Kelly Edwards**

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

**Sam Jones**

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

**Simon Ogdon**

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus

**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones,**

**y Tra Parchg Athro | the Very Revd Prof.**

**Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter**

**Kaye**

Darllyenydd | Reader

**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340